Ysgol Gynradd Gymraeg Pontybrenin
Heol Casllwchwr, Gorseinon, Abertawe SA4 6AU
Ffôn / Tel: 01792 894210
E-bost/E-mail: ygg.pontybrenin@swansea-edunet.gov.uk
Gwefan/Website: www.yggpontybrenin.com
Trydar / Twitter: @PontybreninYGG

# Grwpiau Ffocws Rhieni 2017/18

Crynodeb o'r materion a godwyd gan aelodau'r grwpiau ffocws rhieni – Tymor yr Hydref

## Dosbarthiadau Meithrin a Derbyn - dyddiad y cyfarfod - 5/12/17

1. Mae'r llyfrau cyswllt cartref/ysgol (disgyblion y derbyn, nid y meithrin) yn wych ac maent yn help mawr wrth gefnogi disgyblion ac anfon negeseuon i'r ysgol.
2. Mynegodd nifer o rieni bryder ynghylch oedi wrth dderbyn llun ysgol eu plentyn o Colorfoto. Mae'n ymddangos y bu problem gydag archebu ar-lein yn hytrach nag archebu drwy'r ysgol (mae'r swyddfa wedi anfon y pryderon hyn ymlaen i Colorfoto).
3. Byddai rhieni, ac yn enwedig rhieni di-Gymraeg, yn gwerthfawrogi'r cyfle i weld a chlywed fideos/hwiangerddi a chaneuon y mae plant yn eu canu pan fyddant yn yr ysgol ar y wefan fel y gallant gefnogi eu plant gartref. Pe bai modd uwchlwytho'r eirfa a'r ymadroddion a ddefnyddir yn aml yn y dosbarth i'r wefan, byddai hynny'n gymorth mawr.
4. Mae clipiau fideo a lluniau o ddisgyblion ar dudalennau'r dosbarthiadau yn wych ac maent yn rhoi'r cyfle i rieni weld eu plant wrth eu gwaith yn yr ysgol.
5. Mae disgyblion y derbyn wedi mwynhau mynychu gwasanaethau'r ysgol am y tro cyntaf yn fawr y tymor hwn. (Bydd disgyblion y meithrin yn dechrau mynychu gwasanaethau yn ystod tymor yr haf er mwyn eu paratoi ar gyfer y dosbarth derbyn).
6. Ni chynhaliwyd y digwyddiad 'Cwrdd â'r Athro/Athrawes' i rieni disgyblion sy'n symud o'r meithrin i'r derbyn ar ddiwedd tymor yr haf. Ymddiheura'r ysgol am hyn. Roedd hyn oherwydd nad oeddem yn gwybod pa staff a fyddai'n addysgu ac yn cefnogi'r dosbarthiadau amrywiol tan wythnos olaf y tymor. Caiff trefniadau ar gyfer y cyfarfod pontio hollbwysig hwn eu gwneud ymhell o flaen llaw eleni.
7. Mae athrawon a staff cefnogi'r meithrin a'r derbyn yn wych ac maent yn glod i'r ysgol.
8. Roedd y gwasanaeth 'Pori Drwy Stori' yn hyfryd ac roedd yn wych i weld y plant yn perfformio gyda chymaint o hyder yn y Gymraeg.

## Blwyddyn 1 a 2 - dyddiad y cyfarfod - 7/12/17

1. Roedd rhieni i weld yn hapus iawn gyda phopeth hyd yn hyn y tymor hwn.
2. Mynegodd nifer o rieni bryder ynghylch oedi wrth dderbyn llun ysgol eu plentyn o Colorfoto. Mae'n ymddangos y bu problem gydag archebu ar-lein yn hytrach nag archebu drwy'r ysgol (mae'r swyddfa wedi anfon y pryderon hyn ymlaen i Colorfoto).
3. Yn ddiweddar, cafwyd achosion pan nad oedd plant wedi derbyn ffrwyth ar ddiwrnodau pan na fyddent wedi talu, er eu bod yn talu am ffrwyth fel arfer.

Oni allai'r ysgol roi ffrwyth i'r plant ar y diwrnod hwn ar yr amod eu bod yn talu ar y diwrnod canlynol? (Mae angen arweiniad cliriach i rieni a staff o ran talu arian ffrwyth. Dylai defnydd 'Squid' helpu gyda hyn wrth symud ymlaen).

4. Er y croesawyd y llyfrau cyswllt cartref/ysgol eto eleni, teimla sawl rhiant nad ydynt yn cael eu defnyddio i'w potensial llawn. Mae problemau'n cynnwys negeseuon ddim yn cyrraedd staff er yr ysgrifennwyd yn y llyfrau. Mae angen cyflwyno canllawiau cliriach i ddisgyblion, rhieni a staff ynghylch sut i fanteisio i'r eithaf arnynt. Anfonir canllawiau pellach ym mis Ionawr.

<u>Blwyddyn 3 a 4 - dyddiad y cyfarfod - 6/12/17</u>

1. Mae sawl rhiant wedi mynegi pryder ynghylch hylendid cyffredinol ac arogl toiledau'r merched a'r bechgyn. Er yr adnewyddwyd yr holl doiledau llynedd ac maent mewn cyflwr arbennig o hyd, mae diffyg arferion hylendid da sawl disgybl, gan gynnwys peidio â thynnu dŵr y toiled a throethi ar waliau, yn golygu bod hyn yn parhau i fod yn her. Bydd monitro'r cyfleusterau yn rheolaidd a defnyddio niwtralyddion aroglau newydd yn gwella'r sefyllfa, gobeithio.
2. Mae disgyblion i weld yn hapus iawn yn eu dosbarthiadau newydd ac maent yn gweithio'n dda gyda'u hathrawon newydd.
3. Teimla rhieni fod athrawon yn hawdd iawn i fynd atynt a bod y polisi 'drws agored' yn gryfder, gyda rhieni yn hapus iawn i fynd at staff i ofyn am unrhyw beth.
4. Mae gwaith dosbarth a gwaith cartref yn cael eu marcio'n rheolaidd, gydag adborth adeiladol.
5. Gofynnwyd a fyddai modd cyflwyno gwaith cartref yn ddwyieithog. Er caiff gwaith cartref disgyblion y Cyfnod Sylfaen ei gyfieithu er mwyn helpu rhieni i ddeall yr hyn sydd yn ofynnol, yng Nghyfnod Allweddol 2 mae gan ddisgyblion y gallu i gyfieithu ac esbonio eu gwaith cartref i rieni.
6. Mae'r gwaith cartref newydd sy'n seiliedig ar thema wedi profi'n boblogaidd iawn gyda disgyblion a rheini ac mae'n rhoi ychydig o annibyniaeth i ddisgyblion o ran sut a phryd maent yn cyflwyno darnau unigol o waith.
7. Mynegodd sawl rhiant bryder ynghylch diffyg staff cefnogi yng Nghyfnod Allweddol 2. Er bod yr ysgol yn rhannu'r pryderon hyn gyda chymuned yr ysgol, mae toriadau parhaus i'r gyllideb addysg wedi arwain at golli nifer o swyddi'n wirfoddol ac yn orfodol ymhlith y staff cefnogi. Gyda rhagolwg tywyll wrth symud ymlaen, ni ddisgwylir i hyn newid yn y dyfodol agos. Fodd bynnag, anfonir llythyr at rieni, neiniau a theidiau, aelodau'r teulu, ffrindiau etc i wirfoddoli i gefnogi'r ysgol gyda darllen ayyb yn gynnar ym mis Ionawr.

<u>Blwyddyn 5 a 6 - dyddiad y cyfarfod - 29/11/17</u>

1. Fel a nodwyd gan rieni Blynyddoedd 3 a 4 hefyd, roedd sawl rhiant wedi mynegi pryder ynghylch hylendid cyffredinol ac arogl toiledau'r merched a'r bechgyn. Er yr adnewyddwyd yr holl doiledau'r llynedd ac maent mewn cyflwr arbennig o hyd, mae diffyg arferion hylendid da sawl disgybl, gan gynnwys

peidio â thynnu dŵr y toiled a throethi ar waliau, yn golygu bod hyn yn parhau i fod yn her. Bydd monitro'r cyfleusterau'n rheolaidd a defnyddio niwtralyddion aroglau newydd yn gwella'r sefyllfa, gobeithio.

2. Mynegodd rhai rhieni bryder nad oedd disgyblion ym Mlynyddoedd 5 a 6 yn cael digon o gyfleoedd i gymdeithasu gyda'u cyfoedion o'r un grŵp blwyddyn ar yr iard (oherwydd bod amser chwarae i Flynyddoedd 3 a 4 yn wahanol i amser chwarae Blynyddoedd 5 a 6). O fis Ionawr ymlaen, bydd disgyblion mewn dosbarthiadau cymysg yn newid eu hamser cinio rhwng 3 &4 a 5 & 6 wrth barhau i gael awr ginio lawn.
3. Mae nifer o rieni wedi gofyn a yw holl ddosbarthiadau CA2 yn cael 'Amser Aur' ar brynhawn dydd Gwener oherwydd ei fod yn ymddangos yn anghyson. Er bod 'Amser Aur' bob amser wedi bod yn strategaeth i wobrwyo disgyblion a dosbarthiadau am ymddygiad da, cwblhau gwaith i safon uchel etc, mae'n debyg ei fod wedi troi'n ddisgwyliad. Bydd y tymor newydd, sef tymor y gwanwyn, yn gweld llawer mwy o drefn ar brynhawn dydd Gwener, wrth i ddisgyblion CA2 gael y cyfle i ddewis gweithgareddau megis gemau, celf, darllen ayyb, unwaith y byddant wedi cwblhau eu tasgau.
4. Yn dilyn ymlaen o'r cwestiwn blaenorol, holodd rhieni hefyd a yw plant yn aros yn eu dosbarthiadau amseroedd egwyl a chinio os nad ydynt wedi cwblhau eu gwaith. Er y rhoddir digonedd o amser i ddisgyblion gwblhau tasgau, ceir adegau pan na fydd disgyblion wedi llwyddo i wneud hyn. Pan fydd hynny am reswm dilys, h.y. mae'r disgybl wedi cael anhawster wrth ddeall y gwaith, roedd yn rhaid iddo adael am wers cerddoriaeth ayyb, yna rhoddir amser ychwanegol iddo er mwyn cwblhau'r dasg. Os na chwblheir tasgau o ganlyniad i ymddygiad gwael neu annerbyniol, gofynnir i ddisgyblion gwblhau'r gwaith yn eu hamser eu hunain, boed yn ystod amser chwarae neu gartref, os yw hynny'n briodol.
5. Mae'r gwaith cartref newydd sy'n seiliedig ar thema wedi profi'n boblogaidd iawn gyda disgyblion a rheini ac mae'n rhoi ychydig o annibyniaeth i ddisgyblion o ran sut a phryd maent yn cyflwyno darnau unigol o waith. Fodd bynnag, teimla rhai rhieni fod marcio gwaith cartref yn anghyson ar adegau. Bydd yr ysgol yn monitro hyn dros y tymor nesaf.
6. Yn gyffredinol, mae rhieni a phlant yn hapus gyda'u dosbarthiadau newydd a'u hathrawon newydd ac maent yn ddiolchgar iawn am ymdrechion yr holl staff.

Diolch i bawb am eich holl sylwadau. Byddwn yn ceisio gwneud ein gorau glas i fynd i'r afael â'r pryderon y sonioch amdanynt yn y fforymau rheini hyn a gobeithiwn y byddwch yn sylwi ar y gwelliannau yn y meysydd hyn yn fuan. Fodd bynnag, os rydych yn parhau i bryderu neu petai fwy o sylwadau neu awgrymiadau gennych, cysylltwch â mi yn yr ysgol i drafod y rhain ymhellach.

Bydd y rownd nesaf o gyfarfodydd grwpiau ffocws rhieni yn cael eu cynnal hanner ffordd drwy dymor y gwanwyn.

Ysgol Gynradd Gymraeg Pontybrenin
Heol Casllwchwr, Gorseinon, Abertawe SA4 6AU
Ffôn / Tel: 01792 894210
E-bost/E-mail: ygg.pontybrenin@swansea-edunet.gov.uk
Gwefan/Website: www.yggpontybrenin.com
Trydar / Twitter: @PontybreninYGG

Diolch am eich cefnogaeth barhaus.

Yn ddiffuant,
Mr Ceri Scourfield
Pennaeth